Bendibwmbwls Nadolig

Bendibwmbwls!
Dwi mewn trwbwl!
Mae barf Sion Corn ar fy ngwyneb i!
Bendibwmbwls!
Dwi mor farfog
Ac mae'r het yn sownd – o be wna i?

O dewch ffrindie
Dyma eich cyfle
I dynnu'r het goch oddi ar fy mhen!
Ie, ffrindie
Gwnewch eich gore!
Mae'n rhaid bod ffordd cyn i'r byd ddod i ben.

Wel beth am drio tynnu
fel tynnu cracer dolig?
Dyw hynny ddim yn gweithio,
pob ymgais yn siomedig!

Tynnwch eto ffrindiau.
Beth am ysgwyd fy mhen?
Ydi'n bosib i mi siafio?
Dwi ddim isho barf fawr wen

Bendibwmbwls!
Dwi mewn trwbwl
Mae barf Sion Corn ar fy ngwyneb i.
Bendibwmbwls
Dwi mor farfog
Ac mae'r het yn sownd! O be wna i?

© 2026 S4C